# Bownsio ... Dringo ... Llithro



At: g.jones@eryri.gwe
Oddi wrth: beca@p-ac4.gwe
Pwnc: Hwyl yn Llechwedd

Helo, Mam.

Sut wyt ti? Dw i'n dda iawn a dw i'n mwynhau yn y Pod-antur Cymraeg. Mae ffrind newydd yma rŵan - Crad. Mae o'n dod o Landudno ond mae o'n teithio gyda fi yn y Pod-antur Cymraeg rŵan.

Roedd heddiw'n grêt. Es i i Lechwedd gyda Crad ac aethon ni i fownsio, dringo a llithro mewn hen chwarel. Roedd o'n anhygoel!

Yn gynta, roedd rhaid gwisgo oferôls a helmed ac yna aethon ni i lawr i'r chwarel mewn trên bach. Roedd o'n gyffrous.

Yna, aethon ni i mewn i'r hen chwarel - roedd hi'n hardd iawn iawn achos roedd lliwiau glas, porffor, pinc a melyn ar y waliau.

Roedd bownsio ar y rhwydi, dringo'r rhwydi a llithro i lawr y llithren yn hwyl. Roedd o'n wych ond dw i wedi blino rŵan. Rhaid mynd i'r gwely rŵan.

Nos da.

Cariad,

Beca

| | | | |
|---|---|---|---|
| llithro | to slide | roedd rhaid ... | (I) had to ... |
| aethon ni | we went | rhwyd, rhwydi | net, nets |
| hen | old | llithren | slide |
| chwarel | quarry | cariad | love |